# Atodiad G – Côd ymarfer ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, canfaswyr ac ymgyrchwyr ynghylch trafod ceisiadau i bleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio drwy'r post yn Lloegr a Chymru

## Cyflwyniad

1. Mae pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, canfaswyr ac ymgyrchwyr yn chwarae rhan hanfodol mewn etholiadau a refferenda, ac un o'u heffeithiau pwysicaf yw hyrwyddo pleidleisio. Gyda phoblogrwydd cynyddol pleidleisio drwy'r post mae angen sicrhau bod safonau traddodiadol o briodoldeb gwleidyddol mewn gorsafoedd pleidleisio'n cael eu trosglwyddo i gyd-destun pleidleisio drwy'r post.

2. Mae pob cyfeiriad at Swyddogion Canlyniadau yn y côd hwn yn cyfeirio at Swyddogion Cyfrif ar gyfer refferenda.

3. Mae pob cyfeiriad at ymgyrchwyr yn y côd hwn yn cyfeirio at bobl sy'n gysylltiedig ag ymgyrchu mewn refferendwm, gan gynnwys:

- ymgyrchwyr cofrestredig, os ydyn nhw'n unigolion neu'n gyrff[1]
- cyrff dynodedig (yr ymgyrchwyr cofrestredig 'arweiniol')[2]
- 'person cyfrifol' ymgyrchydd cofrestredig[3]
- asiant a benodir gan ymgyrchydd cofrestredig
- unrhyw un arall sy'n gweithio dros ymgyrchydd cofrestredig

---

[1] Mae rhaid i unrhyw berson neu gorff sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu mewn refferendwm gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol fel 'cyfranogwr cymeradwy'. Rydyn ni'n cyfeirio at yr ymgyrchwyr hyn fel 'ymgyrchwyr cofrestredig'.
[2] Gall y Comisiwn ddynodi corff ymgyrchu arweiniol ar gyfer pob canlyniad refferendwm (h.y. ymgyrch 'ie' ac ymgyrch 'nage').
[3] Y person a enwebir gan ymgyrchydd cofrestredig i fod yn gyfrifol o dan y gyfraith am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau perthnasol ar gyllid ymgyrchu.

# Egwyddorion allweddol

4. Bydd yr holl bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, canfaswyr ac ymgyrchwyr sy'n trafod ceisiadau am bleidleisiau drwy'r post a phapurau pleidleisio drwy'r post yn cadw at y ddwy egwyddor allweddol ddilynol:

- Dylai ymgeiswyr, ymgyrchwyr a chefnogwyr gynorthwyo i sicrhau gweinyddu effeithlon a diogel o etholiadau a refferenda gan gynnal cyfrinachedd y bleidlais.
- Ddylai ddim ymgeisydd, ymgyrchydd na chefnogwr ei osod ei hunan mewn sefyllfa ble y gellir cwestiynu ei onestrwydd neu ei uniondeb – neu onestrwydd neu uniondeb ei blaid, ei ymgeisydd neu ei ymgyrch.

# Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud

5. Mewn etholiad gall unigolyn bleidleisio unwaith yn unig ar gyfer pob gornest ac am ddim mwy na'r nifer o seddau sydd ar gael yn yr etholiad hwnnw.

6. Mewn refferendwm gall unigolyn bleidleisio unwaith yn unig, a dim ond am y nifer o opsiynau a benodir ar y papur pleidleisio (fel arfer un).

7. Mae rhaid i lofnod neu farc pleidleisiwr gael ei wneud gan y pleidleisiwr ei hunan bob tro.

8. All unigolyn ddim pleidleisio dros, neu fel, rhywun arall oni bai y'i benodir yn ffurfiol i weithredu fel ei ddirprwy. Os yw unigolyn yn dwyn pleidlais rhywun arall gellir ei erlyn am wneud datganiad neu lw ffug, ffugiad, defnyddio, neu gyhoeddi, offeryn ffug fel un sy'n ddilys neu broffesu i fod rhywun arall (cambersonadu).

9. All unigolyn ddim rhoi, na cheisio rhoi, dylanwad gormodol i berswadio nag i orfodi rhywun i bleidleisio, i beidio pleidleisio, nag i bleidleisio mewn ffordd benodol. Gellir cael rhywun sy'n atal neu sy'n rhwystro'r pleidleisiwr rhag rhydd-ymarfer ei hawl i bleidleisio, neu sy'n ceisio i wneud felly, yn euog o ddylanwadu gormodol.

10. Mae'n drosedd i gynnig arian, diod, adloniant neu roddion eraill i berswadio rhywun i bleidleisio, neu i beidio pleidleisio.

11. Mae'n drosedd i wneud cais ffug am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy fel rhyw berson arall. Hefyd mae'n drosedd i wneud datganiad ffug mewn ffordd arall neu i ysgogi'r Swyddog Canlyniadau mewn ffordd arall naill ai i anfon papur pleidleisio drwy'r post neu bost etholiad arall neu bost refferendwm arall i gyfeiriad na chytunwyd arno gan y person sydd â'r

hawl i'r bleidlais, neu i achosi i bapur pleidleisio i beidio cael ei drosglwyddo i'r derbynnydd arfaethedig.[4]

12. Mae'n drosedd i ddarparu gwybodaeth ffug i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol am unrhyw bwrpas sy'n gysylltiedig â chofrestru etholwyr. [5]

# Ceisiadau i bleidleisio drwy'r post

13. Os ydych chi'n datblygu ffurflen gais bwrpasol, dylai hi gydymffurfio'n llawn â gofynion y gyfraith etholiadol, gan gynnwys yr holl gwestiynau angenrheidiol a'r opsiynau sy'n agored i etholwyr.

14. Dylid annog i etholwyr ofyn i'r bleidlais bost gael ei danfon i'w cyfeiriad cartref cofrestredig, oni bai fod rhesymau cymhellol pam na fyddai hyn yn ymarferol. Mae rhaid datgan y rheswm hwn ar y ffurflen gais.

15. Oherwydd y risg o amheuon y gallai'r gais gael ei newid a'r risg y gallai'r ffurflen gais gael ei hoedi neu'i cholli wrth gael ei throsglwyddo, dylid rhoi cyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol fel y cyfeiriad a ffefrir ar gyfer dychwelyd y ffurflenni cais.

16. Os y defnyddir cyfeiriad cyfryngol, dylid anfon ffurflenni heb eu newid i gyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol o fewn dau ddiwrnod gweithio o'u derbyn.

17. Os y rhoddir ffurflen a gwblhawyd ichi, dylech chi ei hanfon yn uniongyrchol ac heb oedi i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

18. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol wirio'r llofnod ar gais bleidleisio absennol yn erbyn unrhyw gopïau eraill o lofnod neu ddyddiad geni'r etholwr a ddelir ganddyn nhw neu a ddelir gan unrhyw awdurdod y mae hawl ganddyn nhw i'w archwilio.[6]

19. Mae rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadarnhau mewn ysgrifen i bob ymgeisydd Illwyddiannus y byddan nhw'n derbyn pleidlais bost.

---

[4] Adrannau 62A(2) a 115(2), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983).
**Nodwch, os gwelwch yn dda, bod etholiadau a refferenda i gyd â'u deddfwriaeth eu hunain ble mae troseddau fel arfer yn adlewyrchu'r rhai hynny yn yr RPA 1983.** Er enghraifft, ar gyfer etholiadau Ewropeaidd mae'r drosedd yn Adran 62A(2) a 115(2) o dan yr RPA 1983 yn ymddangos fel Rheoliad 79, paragraffau 10 ac 11, Atodlen 2, Rheoliadau Etholiadau Seneddol Ewropeaidd 2004 (Rheoliadau EPE 2004) (fel a ddiwygiwyd).

[5] Adran 13D, RPA 1983.

[6] Rheoliad 51A, Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Lloegr a Chymru) 2001 (Rheoliadau 2001) (fel a ddiwygiwyd).

# Papurau pleidleisio drwy'r post

20. Ddylech chi ddim cyffwrdd na thrafod papur pleidleisio rhywun arall. Os yw rhywun yn gofyn ichi am gymorth i gwblhau papur pleidleisio, dylech chi gyfeirio'r pleidleisiwr bob tro i staff y Swyddog Canlyniadau yn y swyddfa etholiadau sy'n gallu trefnu ymweliad i'r cartref os oes angen. Hefyd bydd cymorth ar gael i etholwyr yn y gorsafoedd pleidleisio.

21. Mae'n gwbl clir na ddylai rhywun sy'n gweithredu ar ran plaid neu ymgyrch geisio casglu unrhyw bapur pleidleisio. Ble bynnag mae'n ymarferol, dylid annog i'r pleidleisiwr bostio neu drosglwyddo'r papur pleidleisio a gwblhawyd ei hunan.

22. Cydnabyddir y gallai pleidleisiwr nad yw'n gallu postio ei bapur pleidleisio na wneud trefniadau iddo gael ei ddychwelyd mewn pryd fynd at bobl sy'n gweithio dros blaid neu dros ymgyrch. Os y gofynnir ichi dderbyn y papur a gwblhawyd, dylech chi sicrhau bod y pleidleisiwr wedi'i selio'n gyntaf ac yna'i bostio neu fynd ag e i orsaf bleidleisio neu i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau ar unwaith, heb ymyrryd mewn unrhyw ffordd â'r pecyn.

23. Os ydych chi gyda phleidleisiwr pan yw e'n cwblhau ei bapur pleidleisio, cofiwch y dylai ei gwblhau'n gyfrinachol. Ar yr un pryd, dylech chi sicrhau bod y pleidleisiwr yn selio'r amlenni'n bersonol ac yn uniongyrchol. Os y gofynnir ichi roi cyngor, mae'n dderbyniol ac yn aml yn gynorthwyol i egluro'r broses bleidleisio ond peidiwch gynnig i helpu rhywun i gwblhau ei bapur pleidleisio.

24. Os ydych chi'n amheus ynghylch uniondeb neu briodoldeb eich gweithredoedd, dylech chi ofyn ichi eich hunan y cwestiwn, **'Beth fyddai arsylwr rhesymol yn ei feddwl?'** Paratöwyd y côd hwn gan ei seilio ar y prawf hwn, fel a ddadleuwyd gan y Trydydd Adroddiad o'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.[7]

➔ Gweler y canllawiau ar blismona etholiadau a refferenda yn Lloegr a Chymru, sy'n glwm wrth y côd ymddygiad hwn. Fe'i gynllunir i'w gyhoeddi i heddweision sydd ar ddyletswydd dros y cyfnod pleidleisio ac mae'n gosod troseddau sy'n perthyn i etholiadau ac i refferenda a throseddau mwy cyffredinol y dylech chi fod yn arbennig o ymwybodol yn eu cylch.[8]

---

[7] Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, *Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yn Lloegr, Yr Alban a Chymru, Trydydd Adroddiad*, Cadeirydd Yr Arglwydd Nolan, (Y Llyfrfa: Llundain, 1997).
[8] Ymdrinir â'r adran hon o'r côd ymddygiad yn yr adran 'Arferion llwgr' ymlaen o fewn Pennod 3, ac yn fwy manwl yn Atodiad A, o'r *Canllawiau ar atal a darganfod camymddwyn etholiadol.*

Ym Medi 2010, cytunodd y Blaid Geidwadol, y Blaid Ryddfrydol, y Blaid Lafur a Phlaid Cymru i dderbyn y côd ymddygiad hwn. Mae'r côd yn gyfredol am etholiadau a refferenda yn 2011.